**Jane Hutt AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip**
**Cabinet Secretary for Social Justice, Trefnydd and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/ Our ref JH/00484/25

Y Cynghorydd Ioan Thomas
Cadeirydd y Cyngor

eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru

12 Mehefin 2025

Annwyl Ioan,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 22 Mai ynghylch cyhoeddiadau diweddar Llywodraeth y DU am ddiwygio lles.

Rwyf am eich sicrhau fy mod mewn cysylltiad rheolaidd â Gweinidogion Llywodraeth y DU am y cynigion yn y Papur Gwyrdd *Pathways to Work: Reforming Benefits and Support to Get Britain Working*. Byddaf yn parhau i dynnu sylw at y sefyllfa yng Nghymru a'r effaith anghymesur bosibl ar bobl yng Nghymru pe bai'r diwygiadau i'r Taliad Annibyniaeth Personol yn cael eu gweithredu fel y maent ar hyn o bryd.

Ers cyhoeddi'r Papur Gwyrdd, mae fy swyddogion wedi bod yn gweithio'n agos â'r Adran Gwaith a Phensiynau ac rydym wedi defnyddio eu data penodol i Gymru ar hawlwyr i ddod i gasgliadau ar effaith y diwygiadau lles arfaethedig yng Nghymru. Bydd hyn yn llywio ymateb traws-lywodraethol i'r Papur Gwyrdd, y byddaf yn ei anfon at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau. Bydd yr ymateb traws-lywodraethol hefyd yn adlewyrchu barn pobl sydd â phrofiad bywyd, gan gynnwys gofalwyr di-dâl, a bydd yn nodi'r mater a godwyd gan eich etholwr o bwysigrwydd cefnogi gofalwyr di-dâl sy'n gofalu am berson sy'n cael ei effeithio gan y diwygiadau.

Bydd y Papur Gwyrdd ar yr agenda ar gyfer cyfarfod o Grŵp Rhyngweinidogol y pedair gwlad ar Waith a Phensiynau sy'n cael ei drefnu ar hyn o bryd. Byddaf yn codi pryderon ar ran pobl yng Nghymru yn uniongyrchol i Weinidogion yr Adran Gwaith a Phensiynau yn ystod y cyfarfod hwn.

Fel yr ydych wedi nodi, bydd yn bwysicach nag erioed bod eich preswylwyr yn cael gwybod sut y bydd y diwygiadau yn effeithio arnynt a'u bod yn gallu cael mynediad at gyngor diduedd i sicrhau eu bod yn hawlio unrhyw arian y mae ganddynt hawl iddo. Mae gwasanaethau ein Cronfa Gynghori Sengl ar gael i bobl sy'n poeni am eu hawliau o ran budd-daliadau, ac rydym wedi buddsoddi £1.4 miliwn arall yn ein prosiectau ar gyfer manteisio i'r eithaf ar incwm.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn 2025-26 rydym yn bwriadu dyrannu dros £173.5m i gyflawni nodau ein polisi gofal cymdeithasol, yn ychwanegol at y £70m a fuddsoddir mewn rhaglenni cyfalaf ar draws y sector gofal cymdeithasol yn ystod 2024-25. Daw'r prif gyllid ar gyfer gofal cymdeithasol trwy'r Grant Cynnal Refeniw ac ardrethi annomestig, ochr yn ochr â refeniw a godir gan awdurdodau lleol trwy godi tâl am ofal a chymorth o dan drefniadau statudol sy'n cael eu goruchwylio gan Lywodraeth Cymru. Yn 2025-26, bydd awdurdodau lleol yn cael £6.1 biliwn gan Lywodraeth Cymru mewn cyllid refeniw craidd ac ardrethi annomestig i'w wario ar ddarparu gwasanaethau allweddol. Mae hyn yn gyfystyr â chynnydd o 4.3% neu £253 miliwn ar sail gyfatebol o gymharu â 2024-25. Mae'r cynnydd hwn yn adlewyrchu ein ymwybyddiaeth o'r pwysau a adroddwyd mewn gofal cymdeithasol ac yn dangos ein parodrwydd i wrando ac ymateb i bryderon y sector o fewn yr adnoddau sydd ar gael.

Rydym yn cydnabod bod pwysau ariannol sylweddol o hyd ar y sector gofal cymdeithasol, yn gyffredinol o ran cynnal a chadw gwasanaethau ac yn benodol mewn perthynas â rhai agweddau ar ein hagenda uchelgeisiol iawn ar gyfer polisi gofal cymdeithasol, a byddwn yn parhau i weithio gyda phartneriaid allweddol ar draws y sector i wneud y mwyaf o'r holl gyllid sydd ar gael.

Yn olaf, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gallai fod yn fuddiol pe bai gennym fwy o bwerau dros ddarparu nawdd cymdeithasol, ond mae'n rhaid ystyried hyn yn erbyn y gofynion cyllidol a deddfwriaethol. Rydym ar hyn o bryd yn cynnal ymchwil i archwilio datganoli’r gwaith o weinyddu nawdd cymdeithasol. Bydd y prosiect ymchwil yn helpu i nodi'r elfennau penodol o'r system nawdd cymdeithasol a gedwir yn ôl y gallai fod yn realistig i Lywodraeth Cymru eu gweinyddu yn unol â'r egwyddorion a amlinellir yn Siarter Budd-daliadau Cymru, a bydd yn darparu crynodeb sy'n seiliedig ar dystiolaeth o sut y gellid bwrw ymlaen i ddatganoli'r pwerau hyn. Caiff yr ymchwil ei chyhoeddi ar ddechrau 2026.

Yn gywir,



**Jane Hutt AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip